

07.02.23

**Gweithredu diwydiannol  
Dydd Mawrth Chwefror y 14eg**

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae'r ail ddiwrnod o weithredu diwydiannol gan aelodau'r 'Undeb Addysg Genedlaethol' wedi ei gynllunio ar gyfer ddydd Mawrth y 14eg o Chwefror. Unwaith eto, yn dilyn ystyriaeth lawn o'r effaith ar y disgyblion ac mewn cytundeb gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr, fe fydd rhaid i'r ysgol weithredu yn yr un modd a'r streic ddiwethaf, fel y dengys isod.

Nid yw'r penderfyniad i gau'r ysgol yn rhannol byth yn cael ei wneud yn ysgafn neu heb ystyried yn ofalus yr effaith ar ddysgwyr a'n gallu i redeg yr ysgol yn ddiogel. Rwy'n ymwybodol o'r anghyfleustra a achosir i rieni a gwarcheidwaid, felly rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu o effaith y gweithredu ar yr ysgol. Byddwn felly:

- 1. Ar agor i ddisgyblion bl.11-13.**
- 2. Ar gau i ddisgyblion bl.7-10. Hoffwn gadarnhau'r trefniadau gosod gwaith ar gyfer disgyblion 7-10 isod:**

- Bydd gwaith yn cael ei adael i'ch plentyn ar lwyfan Teams (mynediad drwy Hwb).
- Bydd y gwaith yn cael ei osod yn nosbarth Teams eich plentyn ar gyfer pob pwnc yn unigol.
- Bydd angen cwblhau'r gwaith yn ystod y wers arferol.
- Ni fydd gwersi byw o gwbl ar ddydd Mawrth.

Yn naturiol, mae rhai staff yn mynd i fod yn absennol oherwydd salwch ar ddydd Mawrth ac eraill o bosib yn gweithredu'n ddiwydiannol. Ni fydd gwaith yn cael ei adael ar gyfer y dosbarthiadau ble mae staff yn absennol o'r ysgol. Ni fyddwn yn gallu hysbysu disgyblion ymlaen llaw am hyn.

Bydd y ffug-arholiadau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer blwyddyn 10 ar ddydd Mawrth yn cael eu symud i ddydd Iau'r 16eg. Mae diwrnod HMS ar gyfer staff ar ddydd Gwener y 17eg o Chwefror ac felly, bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion.

Os nad oes gliniadur gan eich plentyn er mwyn cael mynediad at Teams, yna cwblhewch yr [holiadur yma](#) erbyn canol dydd Gwener 10.02.23. Fel at y 1af o Chwefror, fe drefnwn ni bod un ar gael i'ch plentyn i fenthyg ar gyfer cwblhau gwaith ar ddydd Mawrth y 14eg.

Rydym yn ymwybodol bod yna gynlluniau i gynnal diwrnodau o weithredu diwydiannol pellach. Byddwn yn eich hysbysu o effaith y gweithredu yma ar ddisgyblion yr ysgol yn agosach at yr adegau yma. Os oes unrhyw gwestiwn pellach, peidiwch oedi i gysylltu.

Yn ddiffuant,

*Simon Davies*



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net](mailto:SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth: Mr Simon Davies

